OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3017 (Cy.287)

# TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *4 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Rhagfyr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 119 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "cyfathrebu electronig" ("*electronic communication*") yr ystyr a roddir i "electronic communication" gan adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**);

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw cynllun partneriaeth ansawdd; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000.

### Pennu cyfleusterau sy'n bodoli eisioes

**3.**—(1) Ni all cyfleuster sy'n bodoli eisioes gael ei bennu mewn cynllun os cafodd y cyfleuster hwnnw ei ddarparu'n gyntaf mwy na deng mlynedd cyn y dyddiad pryd y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 115(1) o'r Ddeddf.

(2) Ni all cyfleuster sy'n bodoli eisioes a gafodd ei ddarparu mwy na phum mlynedd cyn y dyddiad pryd y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 115(1) o'r Ddeddf gael ei bennu mewn cynllun os cafwyd

(**1**) 2000 p.38.
(**2**) 2000 p.7.

gwrthwynebiad i'w bennu gan unrhyw berson a oedd, ar y dyddiad hwnnw, yn dibynnu ar y cyfleuster hwnnw wrth ddarparu gwasanaeth lleol, ac nid yw'r gwrthwynebiad hwnnw wedi ei dynnu nôl.

**Gwrthwynebiadau**

**4.**—(1) Rhaid i unrhyw wrthwynebiad at ddibenion rheoliad 3(2) fod yn ysgrifenedig neu drwy gyfathrebu electronig ac mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno, cyn pen y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a roddwyd o dan adran 115(1)—

(a) i'r awdurdod trafnidiaeth lleol a roddodd yr hysbysiad o dan adran 115(1), neu

(b) lle bo dau neu fwy o awdurdodau yn bwriadu gwneud y cynllun, naill ai i'r awdurdod a bennir yn yr hysbysiad at y diben hwnnw neu (os na chafodd unrhyw awdurdod ei bennu felly) i unrhyw un ohonynt.

(2) Gellir tynnu'n ôl unrhyw wrthwynebiad a wnaed at ddibenion rheoliad 3(2) trwy hysbysiad ysgrifenedig neu drwy gyfathrebu electronig sy'n cael ei gyflwyno i'r awdurdod y cyflwynwyd y gwrthwynebiad iddo.

(3) Rhaid i gynllun y mae rheoliad 3(2) yn berthnasol iddo ddatgan, pan wneir ef, na chafwyd gwrthwynebiad at ddibenion y paragraff hwnnw ac sydd heb ei dynnu'n ôl.

**5.** Mae adran 115 o'r Ddeddf yn gymwys, mewn perthynas â chynlluniau arfaethedig sy'n pennu cyfleusterau sy'n bodoli eisioes, fel petai'r canlynol wedi'i fewnosod ar ôl is-adran (4)—

> "(5) Where the proposed scheme specifies one or more existing facilities, the authority shall, in the notice given under subsection (1)—
>
> (a) state when they believe that each such facility was first provided and where two or more authorities propose to make the scheme the authority in whose area an existing facility is situated shall be responsible for making that statement, and
>
> (b) specify the date by which an objection to the specifying of an existing facility must be made, such date to be not less than 42 days from the date on which the notice is published."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

4 Rhagfyr 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer cyfleusterau sy'n bodoli eisioes ac y mae'n bosibl eu bod yn rhan o gynllun partneriaeth ansawdd. Mae cynlluniau partneriaeth ansawdd yn cael eu cyflwyno gan Ran II o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

O dan Reoliad 3, ni chaiff cyfleusterau sy'n bodoli eisioes fod yn rhan o gynllun partneriaeth ansawdd os oeddent wedi'u darparu'n gyntaf fwy na deng mlynedd cyn i hysbysiad o'r cynllun arfaethedig gael ei roi. Os cafodd cyfleuster sy'n bodoli eisioes ei ddarparu'n gyntaf mwy na phum mlynedd ond llai na deng mlynedd cyn i hysbysiad o'r cynllun arfaethedig gael ei roi, caiff fod yn rhan o gynllun partneriaeth ansawdd ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiad, sydd heb ei dynnu'n ôl, wedi'i wneud gan berson sy'n dibynnu ar y cyfleuster hwnnw wrth ddarparu gwasanaeth lleol.

Mae Rheoliad 4 yn darparu bod rhaid i wrthwynebiad at ddibenion rheoliad 3(2) fod yn ysgrifenedig neu drwy gyfathrebu electronig a bod yn rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r awdurdod priodol o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a roddir o dan adran 115(1).

Mae rheoliad 5 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod, pan fydd yn rhoi hysbysiad o gynllun arfaethedig, bennu'r dyddiad y mae'n credu y darparwyd pob cyfleuster perthnasol gyntaf, a'r dyddiad erbyn pryd y bydd yn rhaid i unrhyw wrthwynebiad gael ei wneud, ac ni chaniateir i'r dyddiad hwnnw fod yn llai na 42 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad.